***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 Rhif 142 (Cy. 67)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU

## Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016

*Gwnaed - - - - 8 Chwefror 2016*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 146(4)(b) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(**1**), yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn.

**Enwi a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Codau Gwasanaethau Cymdeithasol (Diwrnod Penodedig) (Cymru) 2016.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru.

**Y diwrnod penodedig**

**2.** Y diwrnod penodedig i'r codau a bennir yn yr Atodlen ddod i rym yw 6 Ebrill 2016.

*Mark Drakeford*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

8 Chwefror 2016

(**1**) 2014 dccc 4.

## YR ATODLEN

Erthygl 2

Y codau a ddyroddwyd o dan adran 145 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac sy'n dod i rym ar 6 Ebrill 2016

| *Enw'r Cod* | *Y dyddiad y gosodwyd copi o'r cod drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *Y dyddiad y dyroddwyd y cod gan Weinidogion Cymru* |
|---|---|---|
| Y Cod Ymarfer mewn perthynas â mesur perfformiad gwasanaethau cymdeithasol | 29 Mehefin 2015 | 5 Hydref 2015 |
| Y Cod Ymarfer a chanllawiau ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol a threfniadau partneriaeth mewn perthynas â Rhan 2 (swyddogaethau cyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 3 (asesu anghenion unigolion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 2 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (taliadau uniongyrchol a dewis o lety) a Rhan 5 (codi ffioedd ac asesiadau ariannol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau | 2 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |

| *Enw'r Cod* | *Y dyddiad y gosodwyd copi o'r cod drafft gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *Y dyddiad y dyroddwyd y cod gan Weinidogion Cymru* |
|---|---|---|
| gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 4 (diwallu anghenion) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | | |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 6 (plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 2 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas ag eiriolaeth o dan Ran 10 a rhannau cysylltiedig o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |
| Y Cod Ymarfer ar arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol mewn perthynas â Rhan 11 (amrywiol a chyffredinol) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 | 3 Tachwedd 2015 | 18 Rhagfyr 2015 |

***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn penodi 6 Ebrill 2016 fel y diwrnod y daw'r codau a ddyroddwyd gan Weinidogion Cymru o dan adran 145(1) o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") i rym.

Mae'r Gorchymyn yn gymwys i'r codau a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn.

Mae'r codau yn gosod gofynion ac yn cynnwys canllawiau sy'n nodi nodau, amcanion a materion eraill mewn perthynas ag arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol o dan Ddeddf 2014. Mae adran 145(3) o Ddeddf 2014 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol weithredu yn unol ag unrhyw ofynion perthnasol sydd wedi eu cynnwys mewn cod a ddyroddwyd o dan adran 145(1) a rhoi sylw i unrhyw ganllawiau perthnasol sydd wedi eu cynnwys ynddo.